# Datganiad hysbysiadau cosb i'r ysgol ei gynnwys yn ei pholisïau presenoldeb ac ar ei gwefan

Mae Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 Llywodraeth Cymru (LlC) yn nodi ei bod yn ofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol (ALl) gydymffurfio â Deddf Addysg 1996, Adran 444, i gynnwys hysbysiadau cosb fel un o'r ymyriadau i hyrwyddo presenoldeb ysgol gwell.

Yn ôl darpariaeth Adrannau 444A a 444B Deddf Addysg 1996, gellir ymdrin ag achosion penodol o absenoldeb heb ganiatâd trwy hysbysiad cosb. Dirwy o hyd at £120 yw hysbysiad cosb a gellir ei roi i riant/ofalwr o ganlyniad i absenoldeb rheolaidd plentyn o'r ysgol/ddarpariaeth addysgol.

Mae'r ysgol yn dilyn y côd ymddygiad ar gyfer hysbysiadau cosb a gafodd ei gyhoeddi gan ERW a'i gytuno gan eich awdurdod lleol. Gan hynny, caiff ofyn i'r awdurdod lleol roi hysbysiad cosb mewn achosion penodol.